

Ein hymrwymiad i Droseddeg – Rhagfyr 2023

Rydym yn siomedig gyda'r cadarnhad a ddarparwyd gan yr Adran Addysg na fyddant yn ystyried ariannu Troseddeg fel Cymhwyster Academaidd Amgen oherwydd gorgyffwrdd canfyddedig â Safon Uwch Cymdeithaseg. Cofrestrwyd dros 43,000 o ymgeiswyr ar gyfer ein Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Troseddeg, o'i gymharu â 47,000 o ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer Safon Uwch Cymdeithaseg, sy'n dangos bod digon o alw am y ddau bwnc yn y maes cymwysterau Lefel 3. Mae ein cymwysterau Troseddeg yn rhoi sylfaen o wybodaeth a sgiliau i ddysgwyr er mwyn iddyn nhw symud ymlaen i gyrsiau addysg uwch mewn pynciau cysylltiedig ac rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â sawl prifysgol i gryfhau'r llwybrau dilyniant hyn. Mae colli'r pwnc hwn o'r maes cymwysterau Lefel 3 yn Lloegr yn golygu y bydd dysgwyr yn Lloegr dan anfantais o bosibl o gymharu â'u cyfoedion yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn parhau i adolygu a diwygio ein cymwysterau Troseddeg presennol fel y gall dysgwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gael budd o'r gwelliannau rydym yn eu gwneud i'r cymhwyster.

Mae ein cymwysterau presennol yn parhau i gyfrannu at dablau perfformiad ac yn dal i gael eu hariannu yn Lloegr tan 2027 (mae'r garfan olaf yn dechrau ym mis Medi 2025). Byddwn yn darparu gwybodaeth bellach i ganolfannau erbyn diwedd mis Ionawr 2024.